

Diweddariad Covid-19 - Cynllun Incwm ar gyfer unigolion Hunangyflogedig

Information correct as at 12:00pm on 27.03.2020

Dim ond os ydych chi'n hunangyflogedig neu'n aelod o bartneriaeth sydd **wedi colli incwm drwy fethu â gweithio** o ganlyniad i'r coronafeirws y gellir defnyddio'r cynllun hwn.

Beth sydd ar gael?

- Grant trethadwy gwerth 80% o incwm misol cyfartalog dros y tair blynedd diwethaf - hyd at uchafswm o £2,500 y mis
- Uchafswm o dri mis o daliadau wedi'u dyddio'n ôl i 1 Mawrth

Pwy sy'n gallu ymgeisio?

- Y rhai sy'n hunangyflogedig neu'n aelod o bartneriaeth
- Y rhai sydd wedi cyflwyno ffurflen Hunan Asesiad treth ar gyfer blwyddyn dreth 2018-19 (neu a fydd wedi gwneud hynny erbyn 23 Ebrill 2020)
- Y rhai sydd wedi masnachu yn ystod blwyddyn dreth 2019-20
- Y rhai a oedd yn masnachu pan gwblhawyd y cais, neu a fyddai'n masnachu oni bai am COVID-19
- Y rhai sy'n bwriadu parhau i fasnachu yn ystod blwyddyn dreth 2020-21
- Y rhai sydd wedi colli elw masnachol/elw partneriaeth o ganlyniad i COVID-19

A oes trothwy o ran elw?

Oes:

- Mae'n rhaid i'r elw masnachol hunangyflogedig fod yn llai na £50,000 y flwyddyn
- Mae'n rhaid i hanner yr incwm hwnnw ddeillio o waith hunangyflogedig

Pwy sy'n gymwys?

- Elw ar gyfer 2018-19 heb fod yn fwy na £50,000 a bod yr elw yma'n cynrychioli mwy na hanner cyfanswm eich incwm trethadwy
- Elw masnachol cyfartalog yn 2016-17, 2017-18, a 2018-19 llai na £50,000 a bod yr elw yma'n cynrychioli mwy na hanner eich incwm trethadwy ar gyfer yr un cyfnod

Sut alla i wneud cais?

- Bydd CThEM yn cysylltu â chi'n uniongyrchol (os ydych chi'n gymwys) i estyn gwahoddiad i chi ymgeisio ar-lein

Pryd fydda i'n cael fy nhalu?

- Bydd y grant yn cael ei dalu'n uniongyrchol mewn un taliad
- Bydd yn cael ei dalu ar ddechrau mis Mehefin
- Bydd y cynllun yn cael ei ymestyn os oes angen

Beth os ydw i'n gyfarwyddwr ar fy nghwmni fy hun?

- Os ydych chi'n derbyn cyflog drwy PAYE, mae'n bosibl y byddech yn gymwys dan y Cynllun Cadw Swyddi

Paratowyd gan Kite Consulting



www.llyw.cymru/cyswlltffermio



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO
08456 000 813